# COFNODION CYFARFOD MISOL
# CYNGOR CYMUNED PISTYLL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 14eg o Ragfyr 2021** |
| **AMSER** | **7.00 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Cyfarfod rhithiol - Zoom** |
| **CADEIRYDD** | **Ynyr Ellis** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd Ynyr Ellis **(YE)** bawb i'r cyfarfod gan ymestyn croeso arbennig i William Adams sydd wedi ymuno henno i roi trafodaeth ar bwynt 3.<br><br>Yn bresennol roedd Lisbeth James **(LJ)**, Sianelen Pleming **(SP)** William Jones **(WJ),** Sara Williams **(SW)** a'r Cyng Aled Wyn Jones **(AWJ),** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | John Owen **(JO),** Gwilym Williams **(GW)**, Griffith Jones **(GJ),** Olwen Roberts **(OR)** ac Emlyn Hughes **(EH).** |
| **3.** | **CYFLWYNIAD GAN WILLIAM ADAMS - PROSIECT BAND EANG FFIBR OPTIG** |
| | Adroddodd William Adams y gwybodaeth canlynnol:<br><br>**<u>Beth yw Prosiect yn ôl y Galw- 'Demand Led'?</u>**<br>- Prosiect a grëwyd gan Openreach i ddod a band eang ffibr i ardal benodol.<br>- Mae yna alw oherwydd nifer fawr o eiddo hefo cyswllt band eang gwael.<br>- Rhan o gronfa arian lefelu'r DU i sicrhau bod gan bawb yr un mynediad i gyfleusterau dros y we.<br>- Rhan o'r cynllun talebau am ddim gigabit.<br><br>**<u>Beth yw ffibr a pham ei fod yn bwysig?</u>**<br>- Nod y prosiect yw dod â Ffibr i'r (FTTP) i breswylwyr a busnesau.<br>- Mae FTTP yn gysylltiad ffibr llawn a fydd yn dod o'r gyfnewidfa yn syth i'r eiddo.<br>- Mae FTTP yn gallu rhoi cysylltiad gigabit cyflym – hyd at 1000Mbps<br>- Ar hyn o bryd Pistyll a Llithfaen wedi'i gysylltu â naill ai Ffibr i'r Cabinet (FTTC) neu gopr.<br>- FTTC / Copr ddim mor effeithiol ac yn dueddol o fod yn ansefydlog a thorri lawr.<br><br>**<u>Sut mae'r cynllun yn gweithio?</u>**<br>- Mae'r talebau ar gael i bawb yn y cynllun **AM DDIM.**<br>- Gall eiddo preswyl a busnesau lleol addo'r talebau er mwyn cyfrannu at y gost o adeiladu'r isadeiledd.<br>- Ni ellir gwario talebau ar unrhyw beth arall.<br>- Mae pob cartref preswyl yn cael gwerth £1,500 o dalebau a phob busnes yn cael £3,000.<br>- Ar ôl casglu digon o dalebau gellir comisiynu'r gwaith.<br>- Nid yw hyn yn golygu y bydd yn rhaid i breswylwyr a busnesau newid eu darparwyr band eang presennol<br>- Fodd bynnag, bydd yn rhaid i unrhyw un sy'n addo eu taleb fod yn rhan o'r cynllun.<br>- Mi fydd **pawb sydd yn addo eu taleb yn gorfod cymeryd y gwasanaeth** os bysa yn cael ei adeiladu.<br><br>**<u>Ble rydyn ni nawr?</u>**<br>- Ar hyn o bryd rydym wedi cyrraedd 7% o'r targed sydd ei angen, ond gyda chyd-weithio mae'n bosib cyrraedd y nod.<br>- Angen creu ymwybyddiaeth o'r cynllun a'r buddion sydd ar gael i bawb.<br>- Dod o hyd i wirfoddolwyr lleol sy'n barod i helpu gyda'r prosiect.<br>- Gyrru gwybodaeth drwy'r post / cyfryngau cymdeithasol a churo drysau. |

| | |
|---|---|
| | Diolchodd AMJ iddo am ei adroddiad a gofynnod iddo gadarnhau bydd pob tŷ anedd a busnes yn deilwng i dderbyn y telebau am ddim cost ychwannegol – Cadarhaodd WA hyn. Esboniodd ymhellach bydd y cysylltiadau copr cyfredol yn cael ei dileu 2030 fellu yn hynnod o bwysig i pob anhedd a busnes fanteisio ar y cyfle.<br><br>Nodwyd LJ bod y Fan Post yn cael trafferthion cyswllt a gofynodd os bydd posib iddynt ymuno a'r cynllun – esboniodd WA ni fydd hyn yn bosib a bydd rhaid ymuno a chyswllt y siop.<br><br>Ymholodd SP a fydd posib gwneud cais ar gyfer menter Hafod Ceiri cyn iddo gael ei sefydlu yn swyddogol – Bydd rhaid gwneud ymhaliadau pellach.<br><br>Cytnunodd SP sefydlu'r wybodaeth yn lleol yn y Siop, tudalen FB Llithfaen ac Llanw Llyn<br><br>Clodd WA gan adrodd bydd talebau ar gael o wefan Open Reach |
| **4.** | **COFNODION CYFARFOD TACHWEDD 2021** |
| | **a)** **<u>CYFLWYNO A MABWYSIADU</u>**<br>Cynnigiodd WJ gywrdeb y cofnodion gyda LJ yn eilio a phawb yn cytuno.<br><br>**b)** **<u>MATERION YN CODI</u>**<br><br>**i.** **OR – TWMPATHAU CYFLYMDER**<br>Nododd OR bod y twmpathau cyflymder wrth y ganolfan a Phen Pistyll angen eu hatgyweirio gan eu bod yn niweidio teiars – nodwyd bod angen sylw ar fyrder i'r mater hwn. Gofynwyd hefyd i roi cais am dwmpathau ar draws y lôn yn hytrach na dau dwmpath y gall ceir eu hosgoi.<br><br>ii. Nodwyd bod twll yn y ffordd wedi ymddangos o dan Bro Dawel yn dilyn y llifogydd diweddar.<br><br>Adroddodd y clerc ei bod wedi gyrru y ddau gais yn eu blaen ond nid oedd wedi derbyn unrhyw ddiweddariad. Nodwyd yr aelodau nid oedd dim o'r gwaith wedi ei gynnal. Awgrymodd AMJ I'r clerc gysylltu nol a gofyn am ramps yn hytrach na coushins parthed y twmpathau cyflymder.<br><br>**c)** **<u>BIN BAW CI PISTYLL</u>**<br>Adroddodd YE ei fod wedi derbyn gwybodaeth gan GJ fod y bin wedi ei sefydlu. Bydd yn gyrru taleb ymlaen at y clerc am gostau nwyddau erbyn y cyfarfod nesaf.<br><br>d) **<u>TORRI GWAIR MYNWENT PISTYLL</u>**<br>Nodwyd bod y gwaith I ail dorri'r gwair wedi ei gwblhau. Y clerc I ddarparu tal.<br><br>e) **<u>ARWYDDION LÔN RHOSYDD</u>**<br>Nid oedd y gwaith wedi ei gynnal i ychwannegu arwyddion – y clerc i wneud ymholiadau pellach<br><br>**f)** **<u>ARWYDDION DWR AR LON Y NANT</u>**<br>Adroddodd SP bod darpariaeth o rhyw waith wedi ei gynnal ar yr arwyddion ond nid oedd yn glir pa waith – gyfynnodd I'r clerc wneud cais pellach iddynt gael eu peintio I fod yn fwy amlwg I gerbydau.<br><br>**g)** **<u>ARWYDD WEDI LLITHRO YM MHISTYLL</u>**<br>Adroddodd WJ nad oedd gwaith wedi ei gynnal i ail sefydlu'r arwydd, y clerc i wneud ymholiadau pellach. |
| **5.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Adroddodd LJ bydd rhaid iddi ddatgan diddordeb ar bwynt 7 gan fod hwn yn Gais Cynllunio personnol iddi. Gadawodd LJ y cyfarfod. |
| **6.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Gweler pwynt 4C |

*LLOFNODWYD .............................................................................. DYDDIAD ..........................................................................*

| | |
|---|---|
| **7.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | Rhif Cais/App Ref: C21/1122/43/DT – Capel Tabor, Llithfaen, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6N<br>Adroddodd SP bod y cais wedi parchu ei Hawl Tramwy ac nododd ni fydd y balconi yn ymharu a neb<br>Cytunodd yr aelodau yrru cefnogaeth y Cyngor ymlaen I'r adran Gynllunio – y clerc I weithredu. |
| **8.** | **PRECEPT 2022 / 2023** |
| | Yn dilyn trafodaeth ar oblygiadau'r Cyngor a'r cronfeudd wrth gefn cynnigiodd WJ ac eiliodd SW gadw'r Praesept i £12,000.00 am 2022/2023 cytunodd pawb. |
| **9.** | **Y MAES PARCIO, NANT** |
| | Adroddodd SP bod y cyfreithiwr bellach wedi creu datganiadau ar gyfer JO a GW, gobeithiodd bydd rhain wedi ei llofnodi a diweddariadu pellach erbyn y cyfarfod nesaf. |
| **10.** | **Y GANOLFAN** |
| | Adroddod SP bod gwaith i wared a'r 'dry rott' bellach wedi ei wneud gan Kimberly Gulf.<br>Nodwyd mae megis dechrau yw hyn a bod andros o waith i'w wneud. Mae ymholiadau am ffynhonellau am nawdd i gyflawni'r gwaith i gwblhau yn parhau. |
| **11.** | **MATERION LLEOL** |
| | Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau |
| **12.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | **a)** **<u>GORCHYMYN CYNGOR GWYNEDD (CAU'R FFORDD DDI-DDOSBARTH GYFERBYN Â RHANDIR, LLITHFAEN)(GWAHARDDIAD TRAFNIDIAETH TRWODD DROS DRO) 2021 – 5ED O INAWR 2022</u>**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.<br><br>**b)** **<u>GRANT OED GYFEILLGAR</u>**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.<br><br>**c)** **<u>GWARIANT ADRAN 137 Y TERFYN AR GYFER 2022-23</u>**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.<br><br>**d)** **<u>UN LLAIS CYMRU / ONE VOICE WALES - BWLETIN NEWYDDION</u>**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.<br><br>**e)** **<u>YMGYNGORIAD AR DDEDDFWRIAETH A PHOLISI CYNLLUNIO AR GYFER AIL GARTREFI A LLETY GWYLIAU TYMOR BYR – NEIL HEMINGTON - PRIF GYNLLUNYDD, Y GYFARWYDDIAETH GYNLLUNIO – YMATEBION CYN 23 O CHWEFROR 2022</u>**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.<br><br>**f)** **<u>YMATEB YR ADRAN GYNLLUNIO I GAIS AM ESTYNIAD YMATEB I GEISIADAU</u>**<br><br>Adroddod y clerc ei bod wedi derbyn yr ymateb canlynol ar gais y Cyngor am estyniad i'r cyfnod 21 diwrnod i ymateb i Geisiadau Cynllunio.<br><br>*Mae hyn yn fater sydd wedi ei godi gan gynghorau cymuned eraill yn y gorffennol ac rwy'n deall nad ydi amseru ymgynghoriadau cynllunio ddim wastad yn disgyn yn hwylus o fewn amserlenni cyfarfodydd cyrff allanol megis cynghorau cymuned y sir.*<br><br>*Yn anffodus, mae'r cyfnod ymgynghori wedi ei osod yn benodol o fewn deddfwriaeth gynllunio ac nid yn fater o drefn sydd wedi ei lunio gan unrhyw awdurdod cynllunio lleol, felly ni fyddai'n bosib newid y cyfnod presennol o 21 diwrnod heb fod y* |

*ddeddf ei hun yn cael ei newid. Nid yw amseru cyflwyno ceisiadau ychwaith yn fater y gall awdurdod cynllunio ei reoli, yn dilyn cyflwyno unrhyw gais ac yna eu prosesu yn unol a'r drefn statudol, mae'r broses yn cychwyn a'r 'cloc yn tician' o ran yr amseroedd statudol sydd gennym i ymdrin ag unrhyw gais gan gynnwys llythyru ymgynghorwyr statudol megis cynghorau cymuned ac unrhyw un arall sydd yn debygol o gael ei effeithio gan unrhyw gais.*

*Fe allwn gytuno ar estyniad amser pan fod angen os yw'n ymddangos na allwch ymateb o fewn y cyfnod sydd yn cael ei nodi yn ein llythyron cyn belled na fyddai'n mynd tu hwnt i'r 8 wythnos statudol sydd yn ddisgwyliedig i ni ymdrin ac unrhyw gais.*

Ni dderbyniwyd sylwadau pellach.

**g)** **CEFNOGAETH – CRICCIETH CREADIGOL**

Adroddodd y clerc bod Cricieth Creadigol ar y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Clodwiw Bywydau Creadigol 2021 ac wedi cysylltu yn gofyn am pleidlais y Cyngor

Cytunodd yr aelodau eu cefnogi – y clerc i yrru eu pleidlais ymlaen.

## 13. CYLLID

**a)** **CYSONIAD**

**b)** **CYFRIFLEN BANC**

**Cyfrif Cyfredol – 1af o Hydref – 6ed o Ragfyr 2021**

| **BALANS CYCHWYN -** | | **£12,436.91** |
|---|---|---|
| **RHIF SIEC** | **TALIADAU** | **DERBYNIADAU** |
| 201219 | 160.00 | |
| 201220 | 18.05 | |
| 201818 | 93.60 | |
| **BALANS CAU –** | | **£12,165.26** |

**Cyfrif Cadw – 7fed o Hydref – 6ed o Ragfyr 2021**

| **BALANS CYCHWYN -** | **£2,660.87** |
|---|---|
| | **DERBYNIADAU** |
| | 0.07 |
| **BALANS CAU** | **£2,660.94** |

**c)** **TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| | | |
|---|---|---|
| **201221** | Cyflog Clerc | 320.00 |
| **210222** | Treuliau Clerc | 28.00 |
| **210223** | D. Osborn | 170.00 |

## 14. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR

11eg o Ionawr 2022 – Lleoliad i'w gytuno.

*LLOFNODWYD .................................................................................. DYDDIAD ..............................................................................*

***Darparwyd gan:*** *Clerc y Cyngor, 1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7HP*
***Ffon:*** *07979 438 307* ***E.Bost:*** *ccpistyll@outlook.com* ***Gwefan:*** *https://cyngorcymunedpistyll.weebly.com*